



POLISI FFONAU SYMUDOL A DYFEISIAU DIGIDOL

CREWYD 09/26

CREWYD GAN: MR D HUGHES

CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL:

DYDDIAD ADOLYGU 09/27

ARWYDDWYD GAN:

PENNAETH _____ DYDDIAD _____

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR _____ DYDDIAD _____

Polisi Ffonau Symudol a Dyfeisiau Digidol

Mae'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth arloesol yn rhan o weledigaeth ein hysgol, ond rydym hefyd yn cydnabod bod rhaid gosod ffiniau cadarn ynglŷn â'i ddefnydd er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch plant a staff.

Yn Ysgol Caer Elen rydym yn cydnabod bod rhieni / gofalwyr yn rhoi ffonau symudol i'w plant er mwyn eu gwarchod a'u hamddiffyn rhag risgiau bob dydd sy'n ymwneud â diogelwch a diogelwch personol. Deallwn hefyd fod rhieni yn poeni am blant yn teithio ar drafnidiaeth ysgol neu'n cerdded neu feicio i'r ysgol yn y bore ac ar ddiwedd y dydd.

Cydnabyddir bod darparu ffôn symudol neu ddyfais i blentyn yn rhoi sicrwydd i rieni y gallant gysylltu â'u plentyn os oes angen iddynt siarad â hwy ar frys.

Atgoffir rhieni / gofalwyr bydd yr Uwch Dîm Arwain, Arweinwyr Cynnydd a Lles neu Staff Gweinyddol/ Atodol yn gwneud pob ymdrech i'ch hysbysu yn syth mewn unrhyw achos o argyfwng.

Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y disgyblion sy'n dod â ffonau symudol/dyfeisiau i'r ysgol yw dilyn y canllawiau a amlinellir yn y ddogfen hon.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod rhieni/gofalwyr yn dymuno prynu/darparu ffôn symudol neu ddyfais ddigidol i'w plant. Gofynnwn yn garedig i rieni / gofalwyr sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol os yw plentyn/plant yn cludo ffôn neu ddyfais ddigidol i'r ysgol.

Ar gampws yr ysgol byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o sut i leihau'r risg bod ffôn yn cael ei golli neu fod ffôn yn cael ei dorri neu yn cael ei ddwyn.

Serch hynny ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb os oes achos yn codi lle mae ffôn neu ddyfais yn cael ei dorri, ei ddwyn neu yn cael ei golli.

Staff

Defnydd o Ffonau Symudol Personol ar gyfer Staff:

Mae'r ysgol yn cydnabod bod gan ffonau symudol personol y potensial i gael eu defnyddio'n amhriodol. Ni ddylid byth defnyddio ffonau symudol i dynnu lluniau neu fideos o blant ar ac oddi ar y campws.

Yn gyffredinol, ni ddylai fod angen defnyddio ffon symudol personol gan staff, ac eithrio fel y nodir yn y canllawiau isod.

- Os oes angen i staff ddefnyddio eu ffôn symudol, ni ddylid defnyddio ffonau symudol, lle bynnag y bo'n bosib ym mhresenoldeb y plant. Dylai staff ond defnyddio eu ffonau symudol yn ystod cyfnodau di gyswllt, amser egwyl neu amser cinio a hynny mewn ardaloedd
- Ni ddylid defnyddio ffonau symudol yn ystod gwersi i wneud neu i dderbyn galwadau, oni bai bod argyfwng.
- Ni ddylai staff rannu eu rhif ffôn symudol ag unrhyw ddisgybl.
- Ni ddylai staff rannu eu rhif ffôn symudol gyda rhieni. Mae'r ysgol yn ymwybodol ac yn cydnabod bod rhai aelodau o staff yn rhieni yn yr ysgol.
- Gall staff sydd yn gyfrifol am weithgareddau iechyd a lles ddefnyddio eu ffonau symudol yn ystod sesiynau gemau a phan fyddant yn gyfrifol am blant oddi ar gampws yr ysgol dim ond i gyfathrebu trefniadau â rhieni/gofalwyr neu gydweithwyr neu at ddibenion brys/argyfwng
- **Teithiau ac Ymweliadau Oddi ar y Safle:** Dylai'r aelod o staff sydd yn gyfrifol am y daith ddefnyddio un o ffonau symudol yr ysgol am y cyfnod pan fydd e/hi ar y daith. Dylid defnyddio'r ffôn/au yma er mwyn cyfathrebu â rhieni neu ddisgyblion. Gall yr aelodau eraill o staff sydd ar y daith ddefnyddio eu ffonau symudol fel y gallant gyfathrebu â chydweithwyr pan fo angen neu mewn argyfwng.
- Ni ddylai unrhyw aelod o staff ddefnyddio ffôn neu ddyfais bersonol i gymryd ffotograffau, fideos na delweddau o blant. Ni ddylai unrhyw ddyfais na ffôn symudol personol gael ei ddefnyddio er mwyn storio unrhyw ddelweddau, ffotograffau na fideos o blant.

Disgyblion Cynradd

Ni chaniateir i ddisgyblion cynradd ddod â ffôn symudol i'r ysgol, oni bai fod yna amgylchiadau arbennig a'u bod wedi derbyn caniatâd ymlaen llaw e.e.

- am fod y plentyn yn cyfranogi mewn gweithgaredd/clwb ar ôl ysgol a bod angen y ffôn i gysylltu gyda rhiant o ran trefniadau casglu neu;
- fod y plentyn yn teithio ar drafnidiaeth ysgol a bod angen y ffôn i gysylltu gyda rhiant am resymau meddygol neu er mwyn sicrhau ei fod e/hi yn cael ei gasglu'n ddiogel.

Os yw plentyn yn derbyn caniatâd i ddod â ffôn i'r ysgol yna mae angen iddo/iddi i gyflwyno'r ffôn i'r swyddfa ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Bydd y ffôn yn cael ei gadw'n ddiogel a bydd modd i'r plentyn i gasglu'r ffôn ar ddiwedd y dydd o'r swyddfa cyn mynychu'r clwb/gweithgaredd neu cyn mynd ar y bws.

Disgyblion Uwchradd

Gall disgyblion ysgolion uwchradd ddod â ffonau i'r ysgol i'w galluogi i gysylltu â rhieni/gofalwyr ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn unig.

Mae'n ofynnol i unrhyw blentyn uwchradd sydd yn dod â ffôn i'r ysgol i ddilyn y gweithdrefnau a'r canllawiau yn gysylltiedig â'r system **Yondr**.

Pan fydd disgybl yn dod â ffôn/dyfais i'r ysgol bydd ef/hi yn gosod y ddyfais yn y waled Yondr a bydd y ffôn/dyfais wedyn yn cael ei gloi yn y waled tan ddiwedd y dydd. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol cyfrifoldeb y disgybl fydd datgloi'r waled gan ddefnyddio'r system Yondr er mwyn cael mynediad at y ffôn. Mae plant yn gyfrifol am ddiogelwch eu ffôn a chynnwys eu ffôn bob amser. Rydym yn ymwybodol fod gan ffonau fynediad i'r rhyngwrwyd trwy fynediad 4G a 5G a dyma un o'r rhesymau pam na chaniateir defnyddio ffonau yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae waledi arbennig ar gael ar gyfer dysgwyr sydd yn dioddef o gyflyrau meddygol penodol e.e. diabetes.

Mewn sefyllfa lle bydd waled Yondr yn cael ei ddifrodi yna bydd angen i'r disgybl, rhiant neu ofalwr i dalu am y gost o brynu waled newydd. Y gost fydd £17.00.

Nid oes hawl gan ddisgyblion cynradd nac uwchradd i ddefnyddio ffonau symudol/dyfeisiau megis Smartwatch yn ystod eu gwersi i ffonio, ffilmio, tecstio na danfon delweddau.

Os gwelir disgybl yn camddefnyddio ffôn symudol/dyfais ddigidol a thrwy hynny anwybyddu'r gweithdrefnau a'r system Yondr yna bydd y ffôn/dyfais yn cael ei gadw yn y dderbynfa a'i ddychwelyd ar ddiwedd y dydd pan fydd angen i riant/gofalwr ddod i gasglu'r ddyfais. Cyfrifoldeb y rhiant/gofalwr fydd i gasglu'r ffôn/dyfais ar ddiwedd y dydd.

Disgwylir i bob disgybl ddilyn ein polisi trafndiaeth ynglŷn â'r defnydd o ffonau symudol/dyfeisiau digidol ar y bysiau/mewn tacsî.

Mewn unrhyw sefyllfa o argyfwng y flaenoriaeth yw i ddisgyblion i ddilyn gweithdrefnau diogelu o dan arweiniad staff.

Camau Disgyblu

Cam 1

Os gwelir disgybl yn camddefnyddio ffôn symudol/dyfais ddigidol bydd angen i'r disgybl i ddiffodd y ffôn/dyfais ac yna trosglwyddo'r ffôn i'r Swyddfa.

Bydd y ffôn/dyfais yn cael ei gadw yn ddiogel dan glo yn y swyddfa a bydd modd i riant/gofalwr gasglu'r ffôn/dyfais ar ddiwedd y dydd.

Gwneir cofnod o'r digwyddiad ar Classcharts.

Cam 2

Os yw disgybl yn torri'r rheol **am yr eildro** caiff y ffôn/dyfais ei gymryd gan yr athro neu aelod staff a'i storio'n ddiogel yn y swyddfa.

Disgwylir i'r rhiant/gofalwr yn unig i gasglu'r ffôn/dyfais o'r ysgol.

Bydd yr Arweinydd Cynnydd a Lles yn cysylltu gyda'r cartref.

Gwneir cofnod o'r digwyddiad hwn ar Classcharts a bydd sancsiynau pellach yn cael eu cymhwyso.

Cam 3

Os yw rhiant/gofalwr yn gorfod casglu ffôn symudol/dyfais **ar dri achlysur mewn blwyddyn academaidd, trefnir cyfarfod swyddogol** a all arwain at wahardd y disgybl **rhag cael caniatâd i ddod â ffôn/dyfais i'r ysgol** am beidio â chydymffurfio â'r polisi.

Gwneir cofnod o'r digwyddiad hwn ar Classcharts.

Os oes unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â chamddefnydd o ffôn symudol/dyfais ddigidol sydd yn peri gofid yna dylid cyfeirio'r mater yn syth at **Swyddog Dynodedig Diogelu Ysgol Caer Elen** sef **Mrs. Elen Mai Griffiths (Pennaeth Cynorthwyol)**.

Yn absenoldeb y Swyddog Dynodedig dylid cysylltu â'r Dirprwy Swyddog Dynodedig sef Mr. Gareth Owens (Dirprwy Bennaeth).